

Welsh Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen SA31 3BT

Adeiladau Llywodraeth Cymru
Teras Picton
Caerfyrddin SA31 3BT



22 Rhagfyr 2025

Cyf: RSC-240429-1098

Yr Athro Phil Kloer
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Anfonwyd y llythyr drwy e-bost yn unig: philip.kloer@wales.nhs.uk

Annwyl Athro Kloer

Cynllun Gwasanaethau Clinigol (CSP)

Drwy gydol y flwyddyn hon, rydym wedi bod yn rhan weithredol o ddigwyddiadau ymgysylltu, gwerthuso opsiynau, sesiynau datblygu ac ystyriaeth gydwobodol ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol (CSP). Yn seiliedig ar yr hyn a glywsom, hoffem grynhoi'r prif bryderon a'r blaenoriaethau o safbwynt y cyhoedd.

Mae'n bwysig bod yn glir, wrth wneud hynny, ein bod yn adlewyrchu'r sefyllfa ar gyfer y poblogaethau yr ydym wedi clywed ganddynt ar draws y 3 rhanbarth Llais yng Ngorllewin Cymru, Gogledd Cymru (De Gwynedd yn bennaf) a Phowys.

Prif Weithredwr/Chief Executive: **Alyson Thomas**
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/ Regional Director (Llais West Wales):
Donna Coleman
E-bost | E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org
Ffôn Tel: 01646 697 610

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Rydym wedi gweld yr adroddiad *Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Ymgynghoriad Cynllun Gwasanaethau Clinigol (Drafft)*, a baratowyd ym mis Tachwedd 2025. Hyd nes y byddwn yn gweld papurau'r bwrdd iechyd cyn y cyfarfod eithriadol, a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror 2026, nid ydym yn gwbl ymwybodol sut y bydd holl safbwyntiau a barn y cyhoedd yr ydych wedi'u hystyried yn llunio cynigion y Bwrdd Iechyd ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at weld sut mae'r safbwyntiau a rannwyd gan bobl ynghylch y materion a ymgynghorwyd yn eu cylch wedi cyfrannu at greu opsiynau a fydd yn gwasanaethu eu hanghenion yn effeithiol.

Unwaith y byddwn wedi gweld y papurau a'r manylion ynddynt, bydd gennym sylwadau, awgrymiadau ac ymholiadau pellach.

Mae rhai themâu cyson yr ydym wedi'u clywed gan y cyhoedd na ellir eu diystyru, ac sy'n gofyn am ystyriaeth weithredol a pharhaus:

- Teithio i gael gofal
Mater pwysig sy'n treiddio i bob agwedd ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol, ac nid dim ond mater o faint o filltiroedd y mae'n rhaid i bobl deithio i'w hapwyntiad, neu i ymweld ag anwyl yn yr ysbyty ydyw.

Gall cynllunio a mynd ar deithiau hir fod yn llethol ac yn llawn straen i bobl, os oes yn rhaid iddynt gael mynediad at amserlenni cludiant, eu deall a'u defnyddio'n annibynnol. Mae teithio ar eu pennau eu hunain i apwyntiadau ysbyty ac oddi yno, pan fyddant yn teimlo'n anhwylyd, yn bryder i lawer hefyd. Mae mynd i leoliadau anghyfarwydd, lle nad ydynt yn gwybod eu ffordd o gwmpas, a lle nad oes ganddynt reolaeth dros argaeledd ac amseriad cludiant, yn creu pryder sylweddol.

Mae angen rhoi ystyriaeth i faterion corfforol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â theithio cryn bellter, fel nad yw teithiau'n ormod o straen oherwydd yr angen

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

am luniaeth, meddyginiaethau, bwyd, a seibiannau tŷ bach.

Mae costau teithio yn golygu bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd fforddio teithiau mynych, er nad ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau neu gymorth gyda chostau cludiant. Mae'n bosib y bydd hi'n anodd i'r rhai heb geir gynllunio teithiau i'r ysbyty ac oddi yno os yw cludiant cyhoeddus yn anaml, a heb fod wedi'i alinio'n ddigonol.

Mae pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu ac ymrwymadau gwaith eisoes yn gwybod bod yr amser sydd ei angen ar gyfer apwyntiad ysbyty yn aml yn llawer mwy cymhleth nag y gall ymddangos i ddechrau. Gall clinigau redeg yn hwyr, oediadau o ran cludiant, yn ogystal ag aros am brofion annisgwyl, greu pryderon enfawr. Mae amseroedd apwyntiadau a phroblemau parcio hefyd yn cyfrannu at y pryderon hyn.

Crybwyllwyd cynlluniau cludo cleifion yn ystod y digwyddiadau ymgynghori, ond nid yw pob claf yn gymwys ar gyfer yr opsiynau hyn. Gall y rhain hefyd fod angen eu trefnu ymhell ymlaen llaw, ond gallant fod yn annibynadwy ar y diwrnod oherwydd canslo munud olaf, hyd yn oed ar gyfer gweithredoedd hir-ddisgwyliedig fel llawdriniaethau cataract. Dywedwyd hefyd eu bod yn anhyblyg, yn methu â chaniatáu i rywun fynd gyda'r claf yn gwmni, ac roedd hyn yn ychwanegu at bryderon pobl.

Yn ystod digwyddiadau ymgysylltu, roedd pobl yn cydnabod y gallai rhai teithiau olygu teithio'n hirach ar gyfer ymchwiliadau neu driniaethau penodol, ond dylid cydbwyso'r rhain hefyd gydag argaeledd gofal lleol, lle bo'n ymarferol. Dywedodd pobl y gallai teithio ymhellach i leoliadau pell arwain at ofal amheronol, a bod pobl yn gwerthfawrogi'r gofal a gawsant yn eu cymunedau eu hunain.

Lle mae cyrraedd yr ysbyty yn gymhleth a heb fod yn ddu a gwyn, gall rhai

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

pobl golli cyfleoedd, yn fwriadol neu'n anfwriadol, ar gyfer diagnosis, triniaeth, ymyrraeth gynnar, a chanlyniadau iechyd llwyddiannus. Mae hyn o bosib yn cael effaith hirdymor ar unigolion, yn ogystal â chost i wasanaethau iechyd.

Roedd nifer o opsiynau'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn cyfeirio at gludo cleifion rhwng safleoedd. Ni allai pobl ddeall sut y byddai gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) allu digonol neu ychwanegol i gefnogi'r trosglwyddiadau hyn yn ddiogel, pan fyddant yn clywed yn gyson am ambiwlansys sydd wedi'u hoedi yn y gymuned a chiwiau y tu allan i ysbytai.

Gofynnodd pobl sut y byddai rhwydweithiau ffyrdd presennol yn helpu i gyflawni'r trosglwyddiadau rhyng-ysbyty hyn mewn modd amserol, yn enwedig mewn cyfnodau o draffig brig neu dywydd garw. Roedd pryderon na fyddai cleifion a gludir ymhell o gartref ar gyfer gofal brys heb ei gynllunio yn cael eu dychwelyd yn nes adref, oherwydd nad oes cerbydau ar gael.

Roedd pobl yn cefnogi mwy o ddefnydd o dechnoleg fel ffordd o leihau'r galw am deithio wyneb yn wyneb neu, ar adegau, gallai rhyw fath o unedau symudol fod yn ddefnyddiol i gael mynediad at ofal yn agosaf at adref. Nid yw hyn yn rhywbeth a fyddai'n addas i bawb ar bob achlysur.

Mae angen gweithredu dulliau digidol a thechnegol o fewn gofal iechyd mewn modd cefnogol, cynhwysol a charedig, fel nad yw pobl yn teimlo bod hwn yn ddull eilradd, neu sy'n gofyn iddynt feddu ar lefel o arbenigedd digidol nad oes ganddynt o bosib.

- **Gwasanaethau strôc**

Roedd y rhain yn flaenllaw iawn ym mhryderon pobl, yn enwedig yng

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Ngheredigion, De Gwynedd a Gogledd Powys, lle byddai pobl yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan newidiadau i'r gwasanaeth hwn.

Nid oedd y model trin a throsglwyddo ar gyfer strôc yn dderbyniol i lawer o bobl. Codwyd pryderon ynghylch oedi posib wrth sganio a thrombolysis, ac ni ddeallwyd hyn yn iawn. Ni theimlwyd bod meddyliau am wahanu cleifion oddi wrth eu teuluoedd yn ddiangen yn ystod cyfnodau o bryder mawr yn cyd-fynd â gofal iechyd caredig a thosturiol, nac yn ffafriol i gyflawni'r canlyniadau gorau posib.

Nid oedd yr amserlenni i bobl fod yn bell o gartref pan eu bod yn wael iawn yn glir, ac roedd pryder y gallai pobl ddirywio'n sydyn a pheidio â chael eu cefnogi gan ffrindiau a theulu.

Roedd teimlad bod unedau llwyddiannus a sefydledig, fel Bronglais, mewn perygl o gael eu colli neu'u hisraddio, ac y byddai sgiliau staff yn lleihau oherwydd na fyddai cyfle i gynnal eu galluoedd.

Clywyd dro ar ôl tro na ellid gwneud penderfyniadau gan y bwrdd iechyd ynghylch gwasanaethau strôc ar wahân i gynlluniau ar gyfer system rheoli strôc rwydweithiol genedlaethol ledled Cymru. Roedd pryder y gallai penderfyniadau brysiog o fewn Hywel Dda arwain at ddosbarthu gwasanaethau strôc yn anghyson ac yn anghyfartal ledled Cymru.

Pe bai hyn yn digwydd, byddai'n rhaid i gleifion a'u teuluoedd oddef canlyniadau'r penderfyniadau hyn am flynyddoedd lawer, neu wynebu newidiadau pellach yn y dyfodol.

Mae potensial y gallai'r ffocws enfawr ar wasanaethau strôc fod wedi tynnu sylw pobl oddi ar y cynigion eraill yn y Cynllun Gwasanaethau Clinigol, a allai effeithio arnyn nhw hefyd. Mae'n bosib hefyd y bydd rhai lleisiau wedi

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

cael eu cysgodi gan y trafodaethau amlwg ar wasanaethau strôc.

- Gwledigrwydd

Roedd pobl yn teimlo fod gwasanaethau bob amser yn cael eu symud ymhellach i ffwrdd o gymunedau gwledig, ac yn symud tuag at ardaloedd mwy poblog. Teimlwyd bod hyn wedi digwydd yn hanesyddol a'i fod yn digwydd eto.

Awgrymodd pobl nad oedd ffocws cynllunio ar gynnal a datblygu gofal iechyd gwledig ledled Cymru. Ystyriwyd bod gwasanaethau gwledig a phell yn cael eu gwanhau yn y dirgel, er mwyn cynnal gwasanaethau mewn ardaloedd mwy poblog. Roedd pobl yn teimlo fod y gostyngiad lleol hwn mewn gwasanaethau wedyn yn effeithio ar wasanaethau lleol eraill sy'n bodoli eisoes, ac yn ansefydlogi systemau bregus presennol hyd yn oed yn fwy.

- Materion staffio

Roedd aelodau'r cyhoedd yn aml yn ei chael hi'n anodd deall pam fod recriwtio mor heriol yn lleol, ac ar draws Cymru. Fe wnaethant holi hefyd pam nad yw staff medrus yn cael eu cadw. Roeddent yn teimlo bod newidiadau systemig cyson, fel y Cynllun Gwasanaethau Clinigol, yn rhwystro ymgeiswyr posib.

- Yr ymgynghoriad ei hun

Roedd rhai pobl yn teimlo ei fod yn gymhleth ac yn fanwl, ond hefyd yn brin o wybodaeth bwysig e.e., lleoliad canolfan sgrinio'r coluddyn arfaethedig. Roedd pobl yn teimlo nad oeddent bob amser yn gallu gwneud cyfraniadau gwybodus at yr broses ymgynghori, neu nad oedd penderfyniadau'n agored i ddylanwad.

O'r dogfennau ymgynghori a'r trafodaethau mewn digwyddiadau ymgysylltu,

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

roedd yn aml yn heriol i'r cyhoedd nodi beth allai canlyniad cyfan yr holl newidiadau hyn ei olygu, oherwydd rhai o'r rhagddibyniaethau.

Teimlwyd hefyd fod amserlenni rhai o'r newidiadau arfaethedig yn amwys, ac yn gadael pobl yn anesmwyth ynghylch sut olwg fydd ar eu gwasanaethau gofal iechyd am flynyddoedd lawer i ddod.

Drwy gydol y broses ymgynghori, roedd mwyafrif y bobl yn cydnabod bod gwasanaethau gofal iechyd dan bwysau, gyda phoblogaethau'n heneiddio, a galw cynyddol am ofal iechyd arbenigol na ellir ei efelychu ym mhob safle ysbyty ar draws ardal bresennol y bwrdd iechyd. Mae'r cyhoedd yn ymwybodol bod angen atebion hirdymor, cynaliadwy a fforddiadwy i'r sefyllfa fregus bresennol.

Mae barn glir gan y cyhoedd nad oes digon o sylw wedi'i roi i weithio neu gydweithio rhanbarthol, a soniwyd am hyn hefyd gan rai gweithwyr proffesiynol o fewn y GIG.

Er bod cyfeiriad wedi bod yn yr ymgynghoriad at waith orthopedig wedi'i gynllunio, a'r potensial ar gyfer trefniadau rhanbarthol eraill gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, nid yw hyn wedi bod yn ddigon manwl i sicrhau pobl y bydd y cynigion yn cyd-fynd â dulliau rhanbarthol neu Gymru gyfan ehangach.

Nid yw'n glir chwaith a oes ystyriaeth bellach neu ddigonol wedi'i rhoi i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae potensial a pharodrwydd i gleifion yn ardal Hywel Dda, yn enwedig yng ngogledd Ceredigion, gael eu gweld gan feddygon ymgynghorol Gogledd Cymru.

Mae'n hanfodol bod cynigion terfynol yn dangos yn weithredol fod y potensial ar gyfer gwaith rhanbarthol wedi'i archwilio'n llawn, a bod unrhyw benderfyniad a wneir gan y bwrdd iechyd ar ei Gynllun Gwasanaethau Clinigol yn gyson â datblygiadau rhanbarthol a chenedlaethol ehangach, gan gynnwys

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

gwasanaethau strôc.

Gwyddom fod atborth y cyhoedd o'r broses ymgynghori bellach wedi'i ddadansoddi, a bod crynodeb wedi'i nodi mewn adroddiad ymgynghori drafft. Mae'r adroddiad hwn wedi llywio'r 'ystyriaeth gydwybodol' a roddwyd gan y bwrdd iechyd i'r materion a godwyd gan y cyhoedd, gan gynnwys cynigion amgen.

Fel gydag unrhyw ymgynghoriad o'r math hwn, mae'r materion a godwyd gan y cyhoedd yn aml yn berthnasol yn fwy cyffredinol i wasanaethau iechyd yn yr ardal, ac nid dim ond y gwasanaethau penodol hynny lle cynigwyd newidiadau. Yn yr ymgynghoriad hwn, teimlwyd yn gryf yr heriau o gael mynediad at wasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell.

Felly, ni waeth beth fo unrhyw gynigion cadarn a gyflwynir i'w penderfynu gan y bwrdd iechyd ym mis Chwefror, mewn perthynas â'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, credwn y gellir dechrau gwneud gwelliannau nawr mewn amrywiaeth o feysydd a fyddai o fudd i bobl sydd angen unrhyw un o wasanaethau'r bwrdd iechyd. Dyma faterion yr ydym yn gwybod bod y cyhoedd eisoes yn teimlo eu bod yn broblemus, a bod angen mynd i'r afael â nhw.

Ystyriwch ac ymatebwch i'r canlynol, os gwelwch yn dda:

1. Nodi sut i wella'r systemau apwyntiadau presennol, fel eu bod yn rhagweithiol ac yn ystyriol o leoliadau cleifion, amseroedd teithio, cyfrifoldebau gofalu, a theithio ar gyfer apwyntiadau.

Wrth wneud hynny, dylai hyn osgoi bwcio apwyntiadau cynnar yn y bore, sy'n amhosib i'r rhai sy'n teithio pellteroedd hir eu cyrraedd, ac sydd wedi nodi bod arnynt angen rhyw fath o ddarpariaeth cludiant wedi'i drefnu ymlaen llaw.

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Rhaid rhoi ystyriaeth ymarferol i gleifion a'u teuluoedd sydd â chyfrifoldebau gofalu a/neu ymrwymadau gwaith, pan fydd angen iddynt hefyd fynychu am ofal ysbyty. Yn y cyfarfodydd ymgysylltu, clywsom sut roedd rhai pobl yn poeni am adael anwyliaid ar ôl, ar eu pennau eu hunain drwy'r dydd, oherwydd na allent ddarogan pa mor hir y byddai'n ei gymryd iddynt deithio i apwyntiad ysbyty ac oddi yno, neu os oedd angen iddynt gasglu plant o'r ysgol.

Credwn fod angen ystyried o ddifrif opsiynau sy'n galluogi cleifion i gael rhywfaint o ddewis a rheolaeth dros apwyntiadau. Mae'n bosib nad oes gan rai pobl broblemau cludiant neu gyfrifoldebau gofalu, a byddai'n well ganddynt apwyntiadau'n gynnar yn y bore, ond nid yw'r system bresennol yn cynnig y trefniadau gorau posib i unrhyw un.

2. Gwella'r ffordd yr ystyrir ac yr ymatebir yn rhagweithiol i anghenion corfforol cleifion sy'n gorfod teithio pellteroedd hir.

Clywsom am bobl â phryderon penodol, fel teithio ar ôl paratoi'r coluddyn neu fod angen newid bag stoma, pasio dŵr yn aml, bod angen defnyddio man newid mewn cyfleuster toiled, neu gymryd meddyginiaeth.

Lle mae amser teithio pobl yn cynyddu'n sylweddol oherwydd yr angen i fynd i leoliadau gwahanol ac anghyfarwydd, rhaid ymgorffori'r materion hyn sy'n ymwneud ag urddas a chysur mewn camau gweithredu ymarferol sy'n gwneud y rhain yn llai o ofid neu rwystyr i bobl.

3. Gwneud hi'n haws ac yn llai o straen i bobl a allai fod yn mynychu lleoliadau anghyfarwydd i gael gofal a thriniaeth:

Yn aml, mae parcio yn beth na ellir ei rhagweld, ac efallai y bydd yn rhaid i bobl ddod o hyd i glinigau o ystod o leoliadau parcio gwahanol, nid dim ond un maes parcio canolog. Mae angen ystyried y potensial i ddefnyddio pin ar Google Maps, What 3 Words, neu gael fideo i ddangos y ffordd.

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Yn ogystal, mae angen mynd ati i ddweud wrth bobl am leoliadau toiledau, banciau gwefru ffôn, oriau agor bwytaï a chaffis, ac argaeledd peiriannau Gwerthu, a storfeydd cadeiriau olwyn.

4. Mae angen adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd a llwyddiant ymweliadau rhithwir yn ystod y pandemig. Mae angen adolygu a gwella'r mesurau sydd ar waith, a fydd yn helpu cleifion i gadw cysylltiad rheolaidd â'u hanwyliaid tra efallai y bydd angen iddynt fod mewn lleoliad ymhell o'u cymuned gartref.

Gofynnwn i chi ymateb i'n sylwadau erbyn 22 Ionawr 2025, os gwelwch yn dda

Yr eiddoch yn gywir



Donna Coleman

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.